

**Gwasanaethau i gyd am 10.30
os na nodir yn wahanol**

Ionawr 6 - Cymundeb Parchg Hywel Wyn Richards
13 – Parchg Robin Samuel
20 – Parchg Hywel Wyn Richards
27 – Parchg Gerwyn Jones
Chwefror 3 – Cymundeb – Parchg Hywel Wyn Richards
10 – Parchg Gerwyn Jones
17 - Parchg Hywel Wyn Richards
24 – Parchg Iwan Rhys Jones
Mawrth 3 - Cymundeb - Parchg Hywel Wyn Richards
10 - – Gwasanaeth Aelodau Casgliad at Goleg yr Annibynwyr
17 Parchg Gerwyn Jones
24 – Parchg Hywel Wyn Richards
31 – Parchg Robin Samuel



Tabernacl Porthcawl

Gaeaf 2018

Yr hwn sydd ganddo glustiau, Gwrandawed.

Annwyl chwiorydd a brodyr,
Blwyddyn Newydd Dda i Chi ac i Bawb sydd yn y tŷ. Ai
dyma'r flwyddyn orau? Dyw'r argoelion ddim yn dda!

Wrth i 2018 ddod i bwn bu farw George H.W. Bush; 41fed
arlywydd yr Unol Daleithiau. Siaradwr anobeithiol ond fe
gyflawnodd rai pethau da. Wrth dalu teyrnged iddo fe
ddwedodd John Major eu bod yn dweud am Bush, bod
ganddo lawer o wrthwynebwyr ond dim gelynyon. Roedd bob
amser yn gwrtais â phawb. Roedd yn gyfnod gwahanol bryd
hynny, meddai Major, ac ychwanegodd, doedd y byd ddim
mor rhanedig bryd hynny. Byddai pawb ohonom yn cytuno,
rwy'n siŵr. Mae'r byd yn rhanedig iawn ar ddechrau 2019.
Y mae angen mendio'r byd heddiw. Gobeithio bo chi'r Gogs
yn fodlon i hwntw fel fi ddefnyddio'r gair gwych hwn. Hyd y
gwela'i un broblem fawr yw nad yw pobl yn barod i wrando ar
ddim nad ydyn nhw am glywed bellach. Mae'r carfannau
gwahanol wedi cau eu clustiau. Y mae popeth annymunol yn
'newyddion ffug'.

Nid yw hyn yn beth newydd wrth gwrs. Holodd Iesu ei
wrthwynebwyr, 'Pam nad ydych yn deall yr hyn yr wyf yn ei
ddweud? Am nad ydych yn gallu gwrandao ar fy ngair i,
meddai (Ioan 8: 43). Y mae saith adnod yn yr efengylau lle
mae Iesu'n dweud, 'Yr hwn sydd ganddo glustiau,
gwrandawed'. Yn wir y mae sawl enghraifft drwy'r Hen
Destament lle mae Duw yn cwyno nad yw pobl yn gwrandao
arno ef; yr oeddent wedi cau eu clustiau oedd ei gwyn.

Y cwestiwn, wrth gwrs, yw – A ydyn ni'n gwrandao? Pan bod y
gair yn dweud rhywbeth fel hyn, er enghraifft, ydyw e'n air
Duw, neu yn newyddion ffug i ni? 'Peidiwch â thalu drwg am

ddrwg i neb. Bydded eich amcanion yn anrhydeddus yng ngolwg pawb. Os yw'n bosibl, ac os yw'n dibynnu arnoch chwi, daliwch mewn heddwch â phawb. Peidiwch â mynnu dial, gyfeillion annwyl, ond rhowch ei gyfle i'r digofaint dwyfol, fel y mae'n ysgrifenedig: "'Myfi piau dial, myfi a dalaf yn ôl,' medd yr Arglwydd.'" Yn hytrach, os bydd dy elynion yn newynu, rho fwyd iddynt; os byddant yn sychedu, rho iddynt beth i'w yfed. Os gwnei hyn, byddi'n pentyrru marwor poeth ar eu pennau. Paid â goddef dy drechu gan ddrygioni. Trecha di ddrygioni â daioni (Rhuf 12: 17-21). Fydd 'na glustiau gyda ni yn 2019, ac a fyddwn ni yn gwranddo?

Y Parchg Gerwyn Jones

CYDYMDEIMLO

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Marilyn a Kevin Cullinan a'r teulu gan iddynt golli tad Marilyn yn ddiweddar.

WEDI BOD YN YR YSBYTY

Roeddem yn flin i glywed fod John Williams wedi bod yn ysbyty Pen-y-bont ond yn falch o wybod ei fod gartref erbyn hyn. Hefyd rydym yn falch i wybod fod Llew Williams gartref ar ôl iddo yntau dreulio peth amser yn ysbyty Pen-y-bont yn ddiweddar. Ein dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.

Mae Jennifer Stephens wedi derbyn llawdriniaeth mewn ysbyty yn Ffrainc. Edrychwn ymlaen at ei gweld yn ôl ym Mhorthcawl wedi cael esmwythâd ar ôl ei thriniaeth. Ein dymuniadau gorau iddi hithau hefyd.

Cofiw'n yn ein gweddiau am yr aelodau hynny sy'n methu bod gyda ni am wahanol resymau.

CASGLIAD AT INDONESIA.

Mae ein diolch diffuant yn mynd i chi am eich cyfraniadau tuag at y bobl sy'n dioddef wedi'r trychineb yn Indonesia. Bydd swm sylweddol yn cael ei ddanfôn i gynorthwyo y trigolion anffodus.

ac mae pwyllgor Eglwysi Ynghyd yn ddiolchgar iddynt am ysgwyddo'r cyfrifoldeb.

WYTHNOS WEDDI BYD EANG 2019

Dydd Gwener Ionawr 18fed am 6.00 y h Darlleniadau, Gweddiau a Coffi yn y Y Centre

Dydd Sul Ionawr 20fed am 6.00 y h-Eglwys Trinity
Pregethwr - Parchg Rob Coyne

Dydd Llun Ionawr 21ain am 7.00 y h - Ffilm *The Shack* yn OLSOTS

Dydd Mercher Ionawr 23 ain am 12.00 pawns Cinio Cawl yn Eglwys All Saints

Dydd Gwener Ionawr 25ain am 12.00 pawns - Cinio Cawl yn Gilgal



Georgia Murray



Aelodau Aelwyd Porthcawl



Teilo Evans yn arwain Côr Siambr Prifysgol St Andrews.

mae pawb yn gwerthfawrogi y cyfle maent yn gael i ymarfer eu Cymraeg. Os gallwch sbario awr a hanner un waith y mis bydd y dysgwyr yn hynod ddiolchgar o'ch cefnogaeth.

GWASANAETH CAROLAU "TOOLS FOR SELF RELIANCE"

Mae cysylltiad agos rhyngom a'r elusen yma gan fod y Parchg John Hanson, sefydlydd yr elusen, yn byw gyferbyn a'r capel. Pan oeddem yn tynnu i lawer ein hen neuadd manteisiodd John ar y coed i godi'r gweithdy ble maent yn cwrdd. Hefyd mae'r elusen yn defnyddio ein hadnoddau i gynnal eu cyfarfod blynyddol.

Cynhaliwyd eu gwasanaeth Nadolig ar brynhawn Sul yr 2il o Ragfyr, oedd hefyd yn ddatliad o'r ffaith fod yr elusen wedi bod mewn bodolaeth ers 10 mlynedd. Dwi'n siwr mai dyma'r gwasanaeth Nadolig mwyaf hwyliog dwi erioed wedi fynychu. Roedd y sgetsau yn hwyliog ond heb golli gwir ystyr y Nadolig.

Os oes gennych hen offer gwaith coed, neu unrhyw grefft arall, nad ydych yn ddefnyddio, ond dim offer garddio, bydd John yn hapus i'w derbyn gennych. Bydd y gwirfoddolwyr yn eu glanhau a'u trwsio cyn eu rhoi mewn bocs sydd yn werth ei weld. Ar ddiwedd ei gwrs bydd crefftwr ifanc mewn gwlad fel Malawi, yn derbyn y llond bocs o offer er mwyn iddo allu sefydlu ei fusnes i hun. Dros y deng mlynedd mae criw Porthcawl wedi anfon 175 o focsys i'r ganolfan yn Southampton. Maent hefyd wedi danfon 334 o beiriannau gwnio, 53 gwahanol fath o beiriannau ac 174 o becynnau defnyddiau gwnio. Mae'r peth yn wyrthiol. Gyda'ch help chi gallent barhau gyda'r gwaith.

EGLWYSI YNGHYD YM MHORTHCAWL

Mae pwyllgor yr Eglwysi Ynghyd yn weithgar iawn dros y Nadolig. Nos wener 21ain Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth carolau yn yr eglwys ar faes carafanau Trecco. Roedd yn achlysur hyfryd ac yn gyfle i fynychu un o eglwysi hynotaf y dref.

Hefyd, eto eleni, rwy'n siwr byddwch wedi gweld sawl preseb o amgylch y dref. Yr eglwys sydd yn gyfrifol amdanynt erbyn hyn

CWRDD UNDEBOL YR HYDREF

Dydd Sul y 14 o Hydref, unwaith eto, roedd yn bleser cael croesawu aelodau Noddfa Ruhamah i gyd addoli gyda ni yn ein Cwrdd Undebol. Ein pregethwr gwadd oedd y Parchg Hywel Wyn Richards. Y Dyn Cyfoethog yn dod at lesu i ofyn, "Athro da, beth a wnaif i etifeddu bywyd tragwyddol", oedd testun ei bregeth. Braint oedd bod yno i wrando er ei neges.

ASTUDIAETHAU BEIBLAIDD

Mae nifer ohonom wedi bod yn cwrdd ar brynhawniau Dydd Llun i gael ein harwain i fyfyrion dros "Y Gwynfyddau" dan arweiniad y Parchg Gerwyn Jones. Diolch iddo am ei waith yn paratoi ac yn rhoi o'i amser i'n harwain. Gobeithiwn ail ddechrau eto yn y flwyddyn newydd.

GWASANAETH DIOLCHGARWCH

Trefnwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni gan yr aelodau. Diolch i bawb gymerodd ran ac a fu mor gefnogol.

CINIO NADOLIG

Daeth dros dri deg o aelodau ynghyd i ginio Nadolig blynyddol y capel yng Ngwesty'r Atlantic ar Ragfyr 2il. Cafwyd pryd blasus o fwyd a phawb wedi ceisio ateb y cwis oedd Derek wedi paratoi yn ôl ei arfer. Diolch i Derek am drefnu unwaith yn rhagor a rhoi'r cyfle i ni gymdeithasu dros bryd o fwyd.

GWAITH CYNNAL A CHADW

Fel ym mhob cyfnod mae gwaith cynnal a chadw yn gorfod cael ei wneud ar yr adeilad. Rwy'n siwr fod pawb wedi gweld y sgaffaldau o flaen drysau ffrynt y capel. Yn anffodus roedd rhaid trwsio bloc concret mawr sydd yn y man uchaf uwchben y drws. Diolch i Eurof Davies am wneud y gwaith ar ein rhan ar gost o £1,416

Yn anffodus roedd rhaid gwneud gwaith ar y sistem wresogi yn y neuadd. Diolch i Martin Hodgson am wneud y gwaith ar ein rhan ar gost o £207. Hefyd gorfod i ni gael Mansel Rees, trydanwr, i gywiro tri nam ddarganfuwyd ar ein sistem drydanol ar gost o yn agos i £60. Mae'n rhaid cadw ar ben ein gwaith cynnal a chadw er mwyn sicrhau fod ein adeilad hyfryd

yn parhau yn y cyflwr gorau posibl. Felly os gwelwch unrhyw beth sydd yn eich barn chi angen ei drwsio rhwngch wybod i un o'r swyddogion os gwelwch yn dda.

OPERATION CHRISTMAS CHILD

Diolch i bawb fu wrthi yn casglu anrhegion a nwyddau i'w rhoi mewn bocsys i'w danfon i blant a fyddai yn annhebygol o dderbyn unrhyw anrheg Nadolig oni bai am ymdrech yr elusen arbennig yma . Diolch i Rhiannon Price am drefnu unwaith yn rhagor. Aethpwyd a 15 o focsys a chyfraniad ariannol i'r ganolfan iddynt gael mynd mewn pryd at y Nadolig.

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

Mae swyddogion y Cyfundeb wedi newid fel a ganlyn –

Cadeirydd – Emlyn Davies (Tabernacl Efail Isaf)

Ysgrifennydd – Gwilym Hughes (Tabernacl Efail Isaf)

Trysorydd – Parchg Kevin Davies (Bethel, Penarth a Tabernacl y Barri)

Cynhelir y Cwrdd Chwarter nesa ym mis Chwefror pan drafodir yr angen i greu eglwysi dementia cyfeillgar a bydd Beti George yn ymuno yn y trafodaethau. Y cyfarfod i'w gynnal yng nghapel Bethlehem Gwaelod y Garth, y dyddiad i'w benodi

OEDFA NADOLIG Y GYMDEITHAS GYMRAEG

Daeth nifer sylweddol ynghyd ar Bnawn Sul Rhagfyr 16eg i oedfa a drefnwyd eleni gan Gapel Noddfa. Llywyddwyd gan y Parchg Euros Miles gyda ei wraig Sheila wrth yr organ. Darllenwyd rhannau o'r ysgrythur a chyhoeddwyd yr emynau gan aelodau Noddfa. Cafwyd datganiad hyfryd o "O Faban Glân" gan bedwarawd o'r capel. Yn ei fyfyrddod bu i'r Parchhg Euros Miles ein hatgoffa i Dduw ddod yn y cnawd i'n byd a'i fod yma gyda ni o hyd. Diolch yn fawr iawn am oedfa arbennig.

CAROLAU YNG NGOLAU CANNWYLL

Ar Nos Wener Rhagfyr 14eg cynhaliwyd ein noson Nadoligaidd arferol. Roedd y neuadd yn edrych yn hyfryd o Nadoligaidd a chroesawgar i'r nifer ddaeth ynghyd i fwynhau.

Cafwyd nifer o eitemau llafar ynghyd a chanu carolau gyda'n gilydd. I orffen y noson bu i ni gymdeithasu dros gwpaned a "mins peis" a rholiau selsig ac ati. Diolch i Meirwen Jones unwaith eto am ei harweiniad yn trefnu ac i Tom Price am arwain y noson. Hefyd diolch i bawb fu'n cymryd rhan. Braff oedd croesawu aelodau, ffrindiau a nifer o ddysgwyr a ddaeth i ymuno gyda ni.

OEDFA GAROLAU ADRAN/AELWYD YR URDD

Nos Iau oedd y noson y daeth disgyblion Ysgol y Ferch o Sger ac aelodau o Aelwyd Porthcawl at ei gilydd i gynnal eu hoedfa Nadolig flynyddol. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl datganiadau cerddorol gan barti yr ysgol a'r Aelwyd ynghyd â deuawd a datganiad ar y delyn yn ystod y casgliad gan Lleucu a Martha. Cafodd y gynulleidfa gyfle i gyd ganu nifer o'r carolau. Diolch i bawb fu yn cymryd rhan ac i'r rhai fu yn eu hyfforddi. Diolch hefyd i'r rhai ddaeth ynghyd i brofi o oedfa arbennig arall gan y plant a'r bobl ifanc.

OEDFAON SUL RHAGFYR 23ain A DYDD NADOILG

Cafwyd dwy oedfa arbennig dros y cyfnod yma a'r ddwy yng ngofal Y Parchg Hywel Wyn Richards. Ar y Dydd Sul cawsom fyfyrddod pwrpasol iawn ar le Mair yn stori y Nadolig. I ychwanegu at y naws hyfryd cafwyd darlleniad pwrpasol gan Georgia Murray a datganiadau cerddorol gan aelodau o Aelwyd Porthcawl. Diolch i bawb wnaeth yr oedfa yma i fod yn un mor arbennig ac i'n hatgoffa o wir ystyr y Nadolig.

Ar fore Dydd Nadolig daeth nifer o'r aelodau ynghyd i oedfa Gymun yng ngofal Y Parchg Hywel Wyn Richards. Diolch i'r aelodau fu yn barod i gymryd ran yn yr oedfa a diolch arbennig i'r Parchg Hywel Wyn Richards am ei gymorth a'i arweiniad i ni ers ymddeoliad Rosan a thros gyfnod y Nadolig yma. Estynnwn ein dymuniadau gorau i Mrs Dilys Richards ei wraig gan iddi dderbyn triniaeth ar ei phenglin yn ddiweddar.

BORE COFFI DYSGWYR

Mae'r Bore Coffi Dysgwyr yn mynd ers blynyddoedd ac yn cael ei gynnal ar fore'r Sadwrn cyntaf ym mhob mis rhwng 10.30 a 12.00. Bydd y nifer sydd yno yn amrywio o fis i fis ond